Lleoliad delfrydol...

Gyda ffyrdd pwysig yr A5 a'r A483 ond ychydig filltiroedd i ffwrdd, mae mynediad a theithio i Acrefair ac oddi yno yn syml a hawdd. A thref brysur Wrecsam ddim ond 4 milltir i un cyfeiriad a Llangollen wledig 2 filltir i'r cyfeiriad arall, mae Acrefair yn lleoliad gwirioneddol ddelfrydol.

Dyfodol diogel...

Mae Plas Telford yn ddatblygiad ar y cyd gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn, rhan o Grŵp Tai Pennaf - un o'r darparwyr tai a gwasanaethau cysylltiedig uchaf eu parch sydd wedi hen sefydlu yng Ngogledd Cymru, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - un o'r darparwyr gwasanaethau cyhoeddus amlycaf yn y rhanbarth.

Mae'r cynllun wedi ei ariannu yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i crëwyd gydag anghenion pobl hŷn yn lleol dan sylw, gan weithwyr proffesiynol ym meysydd tai, gofal a chefnogaeth.

Mae'r cynllun yn cael ei alw yn 'Rhagorol' dan Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Prydeinig (BREEAM) ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy - dull mesur gwirfoddol ar gyfer adeiladau gwyrdd.

THE SUNDAY TIMES 100 BEST COMPANIES TO WORK FOR 2011

best company 2011

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

GADARN O BLAID · YN POBL ANABL

Eich cam nesaf...

Bwriadwyd i Blas Telford gynnig amgylchedd delfrydol ar gyfer eich holl anghenion yn y dyfodol - mewn fflat sylweddol a golau a gynlluniwyd gan ystyried bywyd modern ac wedi ei inswleiddio i gynnig moethusrwydd effeithlon o ran ynni; cymuned wirioneddol gydag ymdeimlad gwirioneddol o groeso a chymdogaeth - y lle perffaith i ymlacio a gwneud ffrindiau newydd.

Ac wrth i'ch angen am gefnogaeth a chymorth ychwanegol gynyddu, fe fyddwn yn addasu i ddiwallu'r anghenion hynny, gan ganiatáu i chi fyw eich bywyd yn gyfforddus, mewn heddwch ac annibyniaeth lwyr.

Os ydych chi'n 55 oed neu hŷn, ac yn teimlo y byddech yn cael budd o'r nodweddion a'r gefnogaeth y mae'r cynllun hwn yn eu cynnig, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

Ffôn 0800 1835757
E-bost enquiries@clwydalyn.co.uk
www.clwydalyn.co.uk

Ref: 000002 Edition 4

Cymdeithas Tai
CLWYD ALYN
Housing Association

Aelod o Grŵp Tai Pennaf

Agor Drysau, Gwella Bywydau

WRECSAM LL14 3AU

Plas Telford, Wrecsam

ar y cyd â

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus Elusennol

72 Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 OJD

Y gymuned...

Pentref bychan yw Acrefair, yn agos at y ganolfan siopa bwysig yn Wrecsam ac yng nghanol cefn gwlad hardd, gyda golygfeydd gwych ar draws Afon Dyfrdwy a Dyffryn Dyfrdwy.

Ychydig oddi ar ffordd yr A539 rhwng Wrecsam a Llangollen, mae Acrefair mewn lleoliad delfrydol, gyda chysylltiadau ffordd a rheilffordd gwych yn cynnig mynediad hawdd i ddinasoedd, trefi a chefn gwlad fel ei gilydd - yn berffaith ar gyfer ymweld, siopa neu hamdden.

Fe fu Acrefair yn rhan o hen blwyf Rhiwabon ac mae ganddo hanes cyfoethog ac mae'n ymfalchïo mewn nifer o nodweddion arbennig wedi eu hadeiladu o friciau coch enwog Rhiwabon.

Heddiw mae Acrefair yn manteisio ar siopau a chyfleusterau modern, gan gynnwys Meddygfa, fferyllydd, swyddfa'r post, siop bapur newydd, tafarn, canolfan hamdden a gorsaf betrol - a Chlwb Golff y Waun o fewn cyrraedd hawdd mewn car.





Nodweddion allweddol

- Fflatiau 1 a 2 Ystafell Wely ar Rent neu i'w Prynu
- Yn gyfleus i gyrraedd yr holl gyfleusterau lleol
- Gerddi wedi eu Tirlunio
- Hygyrch i Gadeiriau Olwyn
- Dim pryderon am gynnal a chadw
- Ystafelloedd Ymolchi ar Wahân gyda Chymorth
- Lifft i bob Llawr
- Diogelwch
- Teleofal
- Parcio Preifat
- Ystafelloedd i Wahoddedigion
- Ystafell Ddiddordebau
- Ystafell Trin Gwallt a Therapi
- Llyfrgell / Ystafell TG
- Ystafell Olchi Dillad
- Storfa Bygis Trydan
- Bwyty
- Sinema

Cymerwyd y lluniau mewnol yn ein Cynlluniau Byw Annibynnol eraill



Byw Annibynnol...

Mae Byw Annibynnol yn ffordd flaengar i bobl hŷn feddwl am eu bywyd yn y cartref. Ar un llaw mae'n cynnig cyfle i chi fyw'n hollol annibynnol yn eich fflat eich hun; ar y llaw arall mae'n cynnig yr holl gefnogaeth a gofal sy'n angenrheidiol i roi tawelwch meddwl i chi:

- Mae gennych eich drws ffrynt eich hun a chi sy'n dewis pwy sy'n dod i mewn
- Mae gennych ddiogelwch a thawelwch meddwl
- Chi sy'n rheoli eich arian
- Mae eich dewisiadau a'ch preifatrwydd yn cael eu parchu
- Gall cyplau a ffrindiau aros gyda'i gilydd
- Mae gofal a chefnogaeth ar gael, yn ddibynnol ar asesiad
- Nid oes gennych unrhyw bryderon am gynnal a chadw
- Mae'r cynllun byw'n annibynnol yn hollol hygyrch i gadeiriau olwyn